# Llygoden o'r wlad a llygoden o'r ddinas

Gwerthfawrogi / Dod i Benderfyniad

Penderfynodd llygoden y wlad wahodd llygoden y ddinas i ginio. Roedd llygoden y ddinas yn siomedig iawn. Dim ond gwenith a barlys oedd ar y bwrdd.

"Yn wir, dim ond gwenith sydd yna i ginio?" gofynnodd llygoden y ddinas, "dwyt ti ddim yn byw yn fras, fel fi? Bydd raid i ti ddod am dro i'r ddinas i ti gael gweld beth ydi bwyd."

I ffwrdd â hi ymhen rhai dyddiau i ymweld â llygoden y ddinas. Aeth llygoden y ddinas yn syth i'r cwpwrdd mawr yn y gegin. Dyma hi'n dechrau cnoi y bag siwgwr brown. "Tyrd," meddai wrth lygoden y wlad, "helpa dy hun." Bu'r ddwy lygoden yn cnoi a chnoi am hydoedd.

Yn sydyn, agorodd y drws a daeth geneth fach i mewn i'r gegin a mynd yn syth am y cwpwrdd.

"Rhed nerth dy draed," sibrydodd llygoden y ddinas. Ac i ffwrdd a nhw nerth eu traed i'r twll tu ôl i'r drws. Dyna lle roedd llygoden y wlad yn crynu yn y gornel. "Paid ti â phoeni," meddai llygoden y ddinas, "mi awn ni'n ôl ymhen munud. Caeodd drws y gegin. Aeth y ddwy lygoden allan o'r twll ac yn syth am y bowlen ffrwythau. Dyma ddechrau bwyta'r afal coch. Roedd hwn yn flasus dros ben. Yn sydyn daeth sŵn o gyfeiriad y drws. "Miaw....miaw...miaw. Doedd llygoden y wlad erioed wedi clywed y sŵn hwn o'r blaen.

"Beth ydi'r sŵn yna?" gofynnodd i lygoden y ddinas.

"Sh! rhed am dy fywyd i'r twll." Ar ôl cyrraedd diogelwch y twll dywedodd llygoden y ddinas y cwbl am y gath frech. "Hi ydi'r orau yn y ddinas am ddal llygod."

"Dydw i ddim yn hoffi yn y ddinas," meddai llygoden y wlad. "Rydw i eisiau mynd yn ôl i'r wlad. Mae hi'n dawel yno."

"Na," meddai llygoden y ddinas, "mae gen i un lle arall i ti gael ei weld. Mi awn ni am dro i'r selar o dan y tŷ."

I ffwrdd â nhw i lawr y grisiau i'r selar. Ar y silffoedd roedd darnau mawr o gaws coch. Dechreuodd y ddwy lygoden

fwyta'r caws coch. Roedd y caws hwn y peth gorau roedd llygoden y wlad wedi ei flasu erioed. Ond roedd y caws mor fawr. Doedd hi ddim yn gwybod ble i ddechrau. Wrth iddi gerdded ar hyd y silff gwelodd ddarn bychan o gaws coch ar ddarn o bren. Roedd ar fin plygu ei phen i arogli'r caws coch pan waeddodd llygoden y ddinas dros y lle.
"Paid!...paid!...paid! Trap ydi hwnna. Y munud y byddi di yn cyffwrdd yn y caws bydd y trap yn cau amdanat."
Edrychodd llygoden y wlad ar lygoden y ddinas ac meddai.
"Dydw i ddim yn hoffi'r ddinas. Mi ydw i'n meddwl bod well gen i fwyta gwenith yn y wlad na chaws coch yn y ddinas. Mae'r ddinas wedi codi ofn arna i – yr eneth fach yn dod i'r gegin, y gath frech a'r trap. Hwyl fawr."
A ffwrdd â hi nerth ei thraed i'w chartref yn y wlad.

O Dduw, gwna fi'n hapus trwy werthfawrogi yr hyn sydd gen i. Amen.

- Sut le oedd y ddinas i lygoden y wlad?
- Pam roedd well gan lygoden y wlad ei chartref ei hun?